

**CYMEITHAS BOB OWEN**

Elusen Gofrestredig Rhif 507948

## Y Casglwr

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd  
Cibyn, Caernarfon, Gwynedd

**CYMEITHAS BOB OWEN**  
Tâl aelodaeth: £7.50 y flwyddyn  
(Awst - Gorffennaf neu Ionawr - Rhagfyr)  
i'w anfon i'r Trysorydd

**SWYDDOGION**  
Is-Cadeirydd: E. Wyn James  
Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, Ceredigion  
Ysgrifennydd: Gwyn Tudor Davies  
Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, Ceredigion  
(01970) 623174  
Trysorydd: Gwynndaf Roberts  
Cae'r Hafod, Maes Caled, Dolgellau LL40 1UF  
(01341) 423959  
Golygydd: Mel Williams  
Tan-y-Castell, Llanuwchllyn, Y Bala, Gwynedd LL23 7TA  
ebost:tanycastell@yahoo.com  
(01678) 540652

**Y RHIFYN NESAF**

Erthyglau a mân hysbysebion i'r **GOLYGYDD**  
**ERBYN IONAWR 30**

# Pigion Bruce

AETH deuddeng mlynedd ers imi holi pa un oedd y gerdd goncridd gynharaf yn y Gymraeg. Am y tro cyntaf erioedd, cefais ymateb, prawf bod un o leiaf yn darllen fy nhypyn sylwadau. Ym mis Awst 1992 ysgrifennodd rhyw Ann Corkett ataf i dynnu fy sylw at gyfrol fechan *Blodau'r Gwanwyn*, (Aberystwyth, 1900), o gerddi R. Gwmryn Jones, Trisant; ac yn wir i chi, yn fuan wedyn daeth ar draws copi arall o'r gyfrol a'i hanfon ataf. Ni wn i fawr am Gwmryn - credaf mai gweinidog ydoedd - ac awgryma ei enw gysylltiad â Banc y Gwmryn, ger Capel Dewi, cartref Miss Corkett. (Cyhoeddodd hefyd *Hanes Cychwyniad a Chynydd Methodistiaeth yn Capel Dewi* (Aberystwyth, 1895) Dengys ei hun yn delynegwr sentimental ond digon swynol, ac ymhlith ei gerddi ceir ambell gerdd goncridd.

Yr oedd yr enw anghyffredin Ann Corkett yn taro tant, ac wrth ddiolch iddi holais a oeddem wedi cwrrd o'r blaen. Oeddem, fu ei hateb, yng Ngregynog yn 1987. I mi, rhaid dweud, peth anarferol iawn fyddai cwrrd â merch oedd a diddordeb mewn hen lyfrau, ac o ran chwilyfrydedd dyma drefnu oed i drafod Gwmryn a'i gerddi concridd. Y mae un ohonynt ar ffurf coeden, ac un arall ar ffurf cwpan, ac addewais iddi bryd hynny y byddwn yn eu cynnwys yn fyysgrif nesaf. O'r diwedd, ddeuddeng mlynedd yn hwyr, dyma gywiro faddewid, a dyma'r ddwy gerdd a fu mor dyngedfennol inni ein dau ac a enillodd i Gwmryn le arbennig uwchlaw pob llenor arall yn ein tyt ni: sef 'Yr Iaith Gymraeg' a 'Y Cwpan Meddwol.'

Ms Corkett bellach sy'n paratoi hyn o lith ar gyfer y Casglwr ac yn gwarchod y stonid bob yn ail â mi pan aiff y naill neu'r llall ohonom ar grwydr o gwmpas y Ffair! (O.N. Chwith dweud y dymchwelwyd y capel yng Nghapel Dewi - hen

**Y Cwpan Meddwol.**

Dyma'r Cwpan, gochel rhagddo,  
Ti wr ieuanc, hawddgar, llon,  
Llaw'n yw ei o bob rhyw wenywn,  
Rhai a'ih frathant dan dy fron;  
Ac a'ih arwain, yn mhen amser,  
I gynhen, gwae, ac ochain mawr,  
Ac a ddwg dy galon ymait;  
Dyna dd'wed y Gyfrol Fawr;  
Os wyt, gyfaiil, am gorph iachus,  
Ac estyniad i dy oes,  
Gochel rhag y cwpan meddwol,  
Llaw'n yw ei o bob rhyw loes;  
Gelyn iechyd ydyw'r  
Cwpan, A gwasgarwr  
Dyholi hedd,  
A dy arwain  
Gwna'n naturiol,  
I dy swamsatol fedd.

**Yr Iaith Gymraeg.**

Gron.  
Daear  
Yn Frenin  
F'u'n gaethwas llawd,  
A'r Cymro gynt  
I blygu clun i hon;  
A chyn bo hir daw leithoedd byd  
I nythu yma'n glud;  
A' hediag mae canhoedd daear,  
A'i ganghau led y byd;  
Mae heddyw'n bren cadarn-gryf, mawr,  
Gwasant yn eu col;  
A'r hen Gymraeg fu'n hir dan draed,  
I godi'r wlad yn ol;  
Ond deffro wnaeth ei dewrion feib  
iaith:  
o bob  
y lleiat  
gwan,  
iddil  
mestard  
yn hedyn  
Am lawer canrif ffaith,  
Fe fu Gymraeg, iaith Cymru fad,

# Golygyddol

**Tanysgrifiadau Blynyddol**  
Bu Eisteddfod Casnewydd yn llwyddiannus iawn gyda mwy a mwy o aelodau yn newid i dalu drwy archeb banc, ac eraill yn ymaelodi am y tro cyntaf. Yn anffodus, mae yna nifer ohonoch heb eto dalu eich tanysgrifiad blynyddol. Felly, i wneud pethau'n rhwyddach, bydd pawb sy'n talu drwy archeb banc ag AB wrth eu cyfeiriad a ddaw drwy'r post. Ond, os nad oes, yna, rydych yn talu'n flynyddol. Felly, a wnech yn siŵr, os gwelwch yn dda, eich bod wedi talu am eleni.

**Y Ffair a'r Ocsiwn**  
Roedd Ffair Medi y Gymdeithas yn llwyddiant i'w ryfeddu, a'r Ocsiwn wedi tynnu mwy o gynulleidfa nag erioedd. Hoffwn ddiolch yn enwedig i Ted Huws, William Owen, a Robert Vale am eu rhoddion i'r Ocsiwn, a ddaeth, gyda llaw, â channoedd o bunnau i'r Gymdeithas. Cymerodd Y Prifardd Elwyn Edwards fantell yr ocsiwniar a bu'n hynod llwyddiannus. Hoffwn ddiolch iddo yntau, ar ran y Pwyllgor, am wneud y cwbl yn ddi-dâl. Ni werthwyd popeth, ac felly, y tro hwn, rwyf am gynnal Ocsiwn yn Y Casglwr a byddwch yn gallu ffonio'r Golygydd gyda'ch cynigion.

**Cymorth drwy Rodd**  
Yn y rhifyn hwn, amgacir ffurflen **Cymorth Rhodd**. Mi fydd pawb yn gallu cefnogi'r Gymdeithas drwy lofnodi'r ffurflen a'i dychwelyd ataf fi neu'r Trysorydd, a ninnau, wedyn, fel Cymdeithas yn cael ad-daliad o'r treth incwm. Gan fod yr aelodau bellach dros y fil, gall cwblhau'r rhain ddog ag yn agos i ddwy fil o bunnau i goffrau'r Gymdeithas. Nid oes unrhyw dâl i'r aelod am y gwasanaeth.

**Y Raffl**  
Daeth y raffl ag arian digonol i alluogi'r Gymdeithas osod stonid ar faes yr Eisteddfod eleni eto. Hoffwn ddiolch yn arbennig i'r holl aelodau a anfonodd eu bonion yn ôl, ac i'r llu a gyfrannodd yn hael i goffrau'r Gymdeithas. Mae pob ceiniog yn gymorth a gobeithio y gallwn, maes o law, gynhyrchu pedwar rhifyn y flwyddyn o'r *Casglwr*.

**Teithiau Hanesyddol**  
O'r diwedd, rydym wedi dechrau trefnu teithiau hanesyddol y Gymdeithas a fydd yn cychwyn ddiwedd Ionawr. Credaf fod yr arlyw ar eich cyfer yn hynod ddiddorol. Gobaith y dyfodol yw y bydd aelodau dros Gymru yn trefnu tripart cyffelyb yn eu hardaloedd eu hunain. (Gweler tudalen 7 am y rhaglen)

**Cyfarfod Blynyddol**  
Eleni, gobeithir cynnal diwrnod Y Gymdeithas, a chlustnodir awr ar ôl cinio yn Gyfarfod Blynyddol, yn lle'r un yn yr Eisteddfod. Ceir mwy o fanylion y tro nesaf.

**Ymdeoliadau**  
Mae nifer o'r aelodau wedi ymdeoli oddi ar y Pwyllgor, megis yr Athro Geraint Gruffydd, Yr Athro Bryn Roberts, Dr Rhidian Griffiths a Gwyn Tudor. Maent i gyd wedi bod yn gymorth mawr dros y blynddoedd a dymuna'r Pwyllgor ddiolch yn ddiuaf iddynt am eu cyfraniadau.. Y Cadeirydd dros dro yw y Dr E. Wyn James, ac mae Gwyn Tudor yn barod i bara ymlaen tan y Cyfarfod Blynyddol.

Felly, mae angen Cadeirydd, ac Ysgrifennydd, a rhai aelodau eraill ar y pwyllgor. Os ydych yn gwybod am rywun sydd â diddordeb, gadewch imi wybod. Wnewch chi enwbu rhai o'ch ardal chi, os gwelwch yn dda, fel ein bod yn cael aelodau o wahanol rannau o Gymru i'ch cynrychioli?

gapel Gwmryn, am a wn i - ar ddydd Gŵyl Dewi, yn fuan wedi hyn.) \* \* \*

Pan ymwelwch â Llandudno, diau y galwch heibio siop Myra a Gareth Jones (siop David Hughes gynt) yn Stryd Madog. Yn yr un stryd mae siop Gymraeg Na N'og; yn Stryd Mostyn ceir Bookwise a Penrhyn House. Ond lle da arall, anhysbys i lawer ohonoch mi wranta', yw'r caffi a berthyn i'r hen weithfeydd copor hanner y ffordd i fyny'r Gogarth: mae llond ystafell yno o lyfrau a roddwyd gan gefnogwyr i'w gwerthu er mwyn yr achos. Ni raid talu i fynd i'r gwaith ei hun; cewch ddewis eich lyfrau a'u darllen dros 'baned hamddenol a mwynhau'r olygfa uwchlaw'r dref a'r môr.

\* \* \*  
Os byddwch yn mynd trwy Flaenau Ffestiniog, bydd treulio awr yn Siop yr Hen Bost yn anochel, bid siŵr; ond os bydd hi'n ddydd Gwener, mae'n werth hefyd galw heibio siop ail law yn y stryd gul heibio talcen Swyddfa'r Post. Llyfrau Saesneg sydd yno'n bennaf, ond 50c yw pris pob llyfr a chefais ambell beth digon diddorol yno.

\* \* \*  
Weithiau fel welwch lyfr ar werth mewn un ardal yn unig, a ddylai fod o ddiddordeb ehangach. I'r rhai ohonoch a ymwelodd â'r Plas Newydd yn Sir Fôn, a rhyfeddu at furlun rhamantaidd a darluniau trompe-l'oeil Rex Whistler, yna dylai hwn eich diddori: *The Rex Whistler Experience at Plas Newydd: A Personal Perspective* by C. W. Beretta. Ef, yn wr ifanc, a fu'n cynorthwyo Rex Whistler o 1938 ymlaen yn ei waith, ac ef, bellach yn hen wr, a gyhoeddodd y ddarlith hon (tt.28, pris £2.95 + cludiant). Gellir ei chael yn Oriel Môn Llangefni ac yn y Plas Newydd ei hun.

\* \* \*  
Mi wn na fydd y Golygydd yn cytuno: ond tybed nad yw hi'n bryd ailystyried rhaglen ein feiriau? Oni cheid mantais o gynnal ffair yr hydref, sef dechrau'r flwyddyn addysgol mewn ysgol a choleg, mewn tref megis Aberystwyth neu Fangor neu Gaerfyrddin? Bryd hynny bydd efrfydwy'r Gymraeg a Hanes Cymru (y rhai hynny sy'n llythrennog) yn chwilio am gopiau ail-law o'u llyfrau gosod. Erbyn mis Ebrill, yn Aberystwyth, mae'n rhy hwyr inni obeithio gwerthu fawr ddim iddynt. Mi wn y daw'r ffyddloniaid o bellter mawr i'r Ffair, ond trefi anghysbell yw'r Bala ac Aberystwyth i bobl o Sir Fôn, dyweder, heb sôn am y De, lle dylem godi'r faner

rywbyrd. Perygl aros yn yr un trefi yw na fyddwn byth o fewn cyrraedd i gylch newydd, nid o lyfrbryfed, ond o bobl gyffredin weddol barod i droi i mewn i ffair lyfrau "i weld be sy' na." \* \* \*

A glywsocch chi am y bwriad i droi Blaenafon yng Ngwent yn dref lyfrau debyg i'r Gelli? Ceir trefi tebyg eisoes yn yr Alban ac yng Ngwlad Belg. Methais ddal y manylion ac ni wn sut yr ariennir y cynllun. A fyddai modd cael ysgrif gan rywun yn ei gylch? Bydd felly ddwy dref lyfrau yn y De. Tybed na ellid gwneud rhywbeth tebyg yn y Bala, yn y Blaenau, ym Methesda, yn Llangefni neu yng Nghaerllifon? Nid oes brinder siopau gweigion. Mi wn nad oes yr un nifer o gwsmeriaid i lyfrau Cymraeg ail law ac ychydig iawn a gewch chi yn y Gelli: ond wedyn, lle anghysbell iawn yw'r Gelli i drwch darllenwyr Cymraeg. Pan oeddwn yn Ynysydrin (sef Glastonbury) bwm mewn lle o'r enw *The Book Barn*, dan reolaeth gwir a werthai lyfrau ichi a derbyn eich arian, ond nid ei eiddo ef oedd y llyfrau: eiddo gwerthwyr eraill oedd ynt, pobl nad oedd ganddynt siop, ac a dalai gyfran o'r pris i'r rheolwr. Yn Llwydlo, ceir siop debyg. Dyna efallai syniad arall gwerth ei ystyried yma yng Nghymru.

**Gwasanaeth y Deillion**

Mae'r gymdeithas uchod yn darparu tapiau llafar o erthyglau sy'n ymddangos yn y Casglwr i Danysgrifwyr y Gymdeithas.  
Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Miss Anne K. Till (01970) 820235

**Cymdeithas Gwennynen Gwent**

Trodd Benjamin Hall ac Augusta Hall Blasty Llanoferyn yn ganolfan i ddiwylliant Cymreig. Roedd yr Arglwyddes yn hoff iawn o gerddoriaeth ac o 1826 ymlaen, fe gadwai delynor i ganu'r delyn deires yn y llys. Roedd hi'n frwd dros Gymru a phopeth Cymreig.  
Tâl ymaelodi yw £10 ac am fwy o wybodaeth cysylltwch â: Cymdeithas Gwennynen Gwent, 24 Homelands Road, Rhiwbeina, Caerdydd CF14 1UJ neu ar [www.gwennynengwent.org.uk](http://www.gwennynengwent.org.uk)

**CYWIRIAD**

Dylai llinell olaf yr englyn a ymddangosodd yn erthygl 'Darn o Lŷn' tudalen 9 o rifyn yr Haf, ddarllen fel hyn:  
Na galar nawr, ond golud